Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwella llywodraethu ansawdd

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Awst 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi hwn o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych chi'n ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru, a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Os byddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith rydych chi'n ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar yr Archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | 7 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 23 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 25 |
| 2 Argymhellion blaenorol | 28 |
| 3 Ffurflen ymateb rheolwyr | 32 |
| 4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 36 |
| Amdanom ni | 39 |

# Cipolwg ar yr Archwiliad

## Yr hyn yr edrychom arno

1 Asesodd ein hadolygiad y cynnydd a wnaed gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth) wrth weithredu argymhellion ein archwiliad llywodraethu ansawdd yn 2022. Ystyriodd hefyd y cynnydd a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth i adolygu a gweithredu trefniadau corfforaethol i fodloni'r gofynion Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd newydd, a goruchwyliaeth a chraffu cysylltiedig.

## Pam mae hyn yn bwysig

2 Dylai ansawdd fod wrth 'galon' pob agwedd ar ofal iechyd ac mae 'rhoi ansawdd a diogelwch' o flaen unrhyw beth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru. Gall gofal iechyd o ansawdd gwael fod yn gostus o ran niwed, gwastraff ac amrywiad.

3 Yn ystod 2021-22, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol drefniadau llywodraethu ansawdd ar draws yr holl fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd yng Nghymru. Canfu ein Hadolygiad yn 2022 o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd yn yr Ymddiriedolaeth ei bod wedi ymrwymo i wella ei threfniadau llywodraethu ansawdd. Ond, er ein bod wedi canfod bod trefniadau'n effeithiol ar y pryd, gallai'r Ymddiriedolaeth fod wedi eu cydlynu'n well er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu'r hyn a ddysgwyd.

4 Gwnaethom saith argymhelliad, yn cwmpasu 23 o feysydd i'w gwella, a oedd yn canolbwyntio ar:

- asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb,
- rheoli risg gweithredol,
- monitro archwilio clinigol,
- arfarniadau a hyfforddiant staff,

- polisïau a gweithdrefnau,
- adborth defnyddwyr gwasanaeth a staff, ac
- is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

5 Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf wedi cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau ansawdd system gyfan. Roedd hefyd yn gosod Dyletswydd Gonestrwydd ar gyrff y GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaeth pan fydd pethau'n mynd o'i le a chymhwyso gwersi a ddysgwyd.

## Yr hyn y gwnaethom ei ddarganfod

6 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'n hargymhellion o archwiliad 2022, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella trefniadau ar gyfer rheoli risg ac archwilio clinigol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth ymagwedd gref at asesiadau effaith cydraddoldeb ar waith, ac mae ei chyfraddau cydymffurfio ag arfarniadau a hyfforddiant staff wedi gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu mwy o oruchwyliaeth o is-grwpiau pwyllgorau ac mae ei dull o gasglu adborth defnyddwyr gwasanaeth a staff wedi gwella.

7 Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o ddiweddaru a rhannu polisïau, mae cyfleoedd i asesu ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth polisi staff yn fwy rhagweithiol. Gallai'r Ymddiriedolaeth fod yn fwy eglur hefyd, wrth adrodd ar y camau y mae'n eu cymryd mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

8 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth baratoi ar gyfer y Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd statudol a’u hymgorffori. Mae mecanweithiau cynllunio strategol, ymrwymiad arweinyddiaeth a llywodraethu ar waith, ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud ymdrechion gweladwy i godi ymwybyddiaeth ac alinio ei fframweithiau gwella yn unol â hynny. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth wella'r defnydd o hyfforddiant staff sy'n ymwneud â'r dyletswyddau, ond mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn.

## Yr hyn rydym yn ei argymell

9 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad newydd, sy'n disodli'r argymhellion o 2022 sy'n weddill. Mae'r argymhellion newydd yn ymwneud â:

- profi ymwybyddiaeth o bolisïau llywodraethu ansawdd, a chydymffurfio â nhw, a
- bod yn fwy eglur a thryloyw ynglŷn ag adrodd ar newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

- 19 o'r 23 o argymhellion a ddeilliodd o'n gwaith yn 2022 wedi'u cwblhau, a phedwar argymhelliad wedi'u cwblhau'n rhannol.

- 90.2% o gydymffurfiad â hyfforddiant statudol a gorfodol ym mis Mehefin 2025, o'i gymharu â 87% ym mis Hydref 2021.

- 83.2% o gydymffurfiad ag arfarniadau staff ym mis Mehefin 2025, o'i gymharu â 61% ym mis Hydref 2021.

- Mae dau ddigwyddiad 'niwed cymedrol ac uwch'[1] wedi bod angen eu cymhwyso gan weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn ystod 2024-25, o gyfanswm o 66 o ddigwyddiadau.

[1] Diffinnir niwed cymedrol yng nghyd-destun y Ddyletswydd Gonestrwydd fel digwyddiad diogelwch cleifion sy'n arwain at gynnydd cymedrol mewn triniaeth a niwed sylweddol, ond nid parhaol.

# Ein canfyddiadau

## Gweithredu argymhellion blaenorol

**Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu 19 o'r 23 o argymhellion o 2022 ond mae angen asesu ymwybyddiaeth staff a chydymffurfiad â pholisïau ansawdd yn well a gwella adrodd ar newidiadau sy'n deillio o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth**

### Asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb

10 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gryfhau ei dull o ymdrin ag Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb.

11 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu Hwb Llywodraethu canolog fel rhan o gynllun treialu sydd â’r nod o sicrhau bod yr holl gynigion perthnasol yn cael Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, a'r holl anghenion llywodraethu gofynnol eraill (megis cydymffurfio â deddfwriaeth, cydymffurfiad llywodraethu gwybodaeth a goblygiadau ariannol), cyn cyrraedd y Weithrediaeth neu'r Bwrdd. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod yr asesiadau angenrheidiol wedi'u cwblhau cyn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau allweddol, gan leihau oedi wrth wneud penderfyniadau. Mae'r dull hefyd wedi galluogi'r Ymddiriedolaeth i ymgorffori Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhagweithiol mewn camau cynllunio a gwneud penderfyniadau ar draws y sefydliad. Mae cam treialu'r Hwb Llywodraethu wedi dod i ben ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd gan yr Ymddiriedolaeth, gyda'r bwriad o’i weithredu'n barhaol ar gyfer 2026-27.

12 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno ar safonau ansawdd ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, y mae'n eu hadolygu'n rheolaidd. Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol yn darparu goruchwyliaeth o ansawdd yr Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd o fewn eu cylch gwaith, ac yna craffir arnynt fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn dilyn safonau y cytunwyd arnynt a bod eu hawduron yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn cwmpas neu liniaru i osgoi effeithiau andwyol.

13 Mae staff bellach yn gweld Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb fel rhan annatod o ailgynllunio gwasanaeth a datblygu polisïau a strategaethau, ac nid cam gweithdrefnol yn unig. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgorffori Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn ei fframwaith llywodraethu ehangach trwy'r treial Hwb Llywodraethu, gan drin ystyriaethau cydraddoldeb gyda'r un pwysigrwydd strategol â gofynion llywodraethu eraill.

14 Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn storio ac yn olrhain Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb mewn storfa ganolog newydd o fewn yr Hwb Llywodraethu, a fydd yn hygyrch ledled y sefydliad yn dilyn adolygiad o'r treial. Mae'r storfa hon yn cefnogi gwelededd a chysondeb. Mae hefyd yn helpu i sicrhau bod y sefydliad yn dysgu o asesiadau cynharach ac yn cymhwyso dysgu i benderfyniadau yn y dyfodol. Mae'r canoli hefyd yn gwella tryloywder yn y broses lywodraethu, gan ei gwneud hi'n haws olrhain effaith Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar wneud penderfyniadau.

15 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu adnodd olrhain lliniaru wedi'i ymgorffori yn yr storfa Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod treialu. Nod yr adnodd yw caniatáu i'r Ymddiriedolaeth geisio diweddariadau cynnydd gan arweinwyr ar weithredu camau lliniaru sydd wedi'u cynnwys mewn Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, gan sicrhau cwblhau camau gweithredu ar amser. Bydd y trefniadau adrodd ynglŷn â hyn yn cael eu pennu ar ôl eu gweithredu ar gyfer 2026-27.

## Rheoli risg

16 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gryfhau ei threfniadau rheoli risg.

17 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud camau sylweddol wrth weithredu ei Chynllun Datblygu Rheoli Risg 2022. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau adolygiad trylwyr o risgiau strategol a gweithredol, gan arwain at nodi a mapio risgiau i'r blaenoriaethau busnes sydd wedi'u cynnwys yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28 yn glir. Bellach, mae yna lwybr uwchgyfeirio wedi'i ddiffinio'n dda ar gyfer risgiau o lefel cyfarwyddiaethau i lefelau corfforaethol a gweithredol, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

18 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu a gwella ei hadnoddau rheoli risg, gan benodi Pennaeth Rheoli Risg yn gynnar yn 2024 i ddarparu goruchwyliaeth strategol o'r Cynllun Datblygu Rheoli Risg. Mae'r rôl hon wedi bod yn allweddol wrth ysgogi gweithredu gwelliannau rheoli risg a sicrhau bod trafodaeth weithredol ar risgiau strategol gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd.

19 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ail-alinio ei risgiau strategol i ganolbwyntio ar feysydd y gall eu rheoli neu ddylanwadu arnynt yn uniongyrchol, megis arweinyddiaeth, diwylliant a chyflawni gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei threfniadau i sicrhau ansawdd y rheolaethau yn y Gofrestr Risg Strategol[2]. Mae'r Gofrestr Risg Strategol yn cynnwys naratifau gwell ar risgiau a'u rheolaethau, ac mae aliniad clir i nodau gweithredol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu fframwaith parodrwydd i dderbyn risg diwygiedig, sy'n cryfhau sgorio risg a dealltwriaeth o risgiau gweddilliol. Mae'r cynnydd a wnaed yn cefnogi craffu mwy trylwyr. Fodd bynnag, rydym yn parhau i amlygu trwy ein gwaith asesu strwythuredig bod lefelau sicrwydd a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth yn weithredol i raddau helaeth, ac mae rhai bylchau yn yr ail a'r drydedd lefel o sicrwydd[3]. Mae'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r pwyllgorau perthnasol yn derbyn ac yn adolygu cofrestrau risg gweithredol a strategol yn rheolaidd.

---

[2] Cofrestr Risg Strategol yr Ymddiriedolaeth yw'r hyn y byddem yn ei ystyried yn Fframwaith Sicrwydd Bwrdd, dogfen a ddefnyddir i gofnodi ac adrodd amcanion strategol allweddol, risgiau, rheolaethau a sicrwydd sefydliad i'r Bwrdd.

[3] Mae'r model tair llinell amddiffyn yn galluogi ffynonellau sicrwydd i gael eu categoreiddio, gydag annibyniaeth gynyddol a gwrthrychedd sicrwydd ar yr ail a'r drydedd lefel.

20 Mae diwylliant rheoli risg mwy cadarn yn datblygu o fewn yr Ymddiriedolaeth, gyda mwy o gyfranogiad y gyfarwyddiaeth a mwy o bwyslais ar sicrhau bod rheolaethau'n effeithiol. Mae cyflwyno dangosfyrddau risg gweithredol ac offer adrodd cyfansawdd yn gwella gwelededd ac effeithiolrwydd prosesau sicrhau risg. Ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi bod angen canolbwyntio mwy ar rai meysydd o'r sefydliad i aeddfedu rheoli risg gweithredol ymhellach. Mae timau gweithredol yn ymgorffori rheoli risg yn gynyddol yn eu trefn ddyddiol. Ond mae'r Ymddiriedolaeth yn wynebu her wrth sicrhau bod digon o amser ac adnoddau wedi'u neilltuo i gefnogi rheoli risg ar bob lefel o'r sefydliad.

21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Datix Cymru fel ei phrif feddalwedd rheoli risg. Er bod y system wedi'i haddasu i gefnogi fframwaith rheoli risg yr Ymddiriedolaeth yn well, gan gynnwys addasu ar gyfer parodrwydd i dderbyn risg a chategoreiddio risg, mae cyfyngiadau swyddogaethol o hyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn weithredol yn adolygu'r opsiynau ar gyfer datrysiad rheoli risg mwy effeithiol y gellir ei gyflwyno ar raddfa fwy, ac mae penderfyniad Gweithredol yn yr arfaeth ynghylch a ddylid symud i ffwrdd o fodiwl risg Datix Cymru.

22 Yn y cyfamser, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwella Datix Cymru gyda mwy o nodweddion, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu mwy o ddangosfyrddau risg Power BI i gryfhau monitro amser real. Bydd y dangosfyrddau yn cynnig golwg fwy integredig o risgiau ac yn cefnogi triongli gyda data sicrwydd arall.

## Archwiliad clinigol

23 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran sicrhau dull mwy strwythuredig, integredig a gwybodus o ran risgiau o archwilio clinigol ar draws y sefydliad.

24 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd i sicrhau bod y Cynllun Archwilio Clinigol yn cysylltu â chofrestrau risg gweithredol, corfforaethol a strategol. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynnig archwilio amlygu a yw'r weithgaredd yn gysylltiedig â risg benodol. Mae'r broses hon yn sicrhau aliniad rhwng archwiliadau a risgiau allweddol ac yn helpu i flaenoriaethu archwiliadau mewn meysydd risg uchel yn effeithiol. Mae'r pwyslais ar flaenoriaethu ar sail risg yn glir, gyda'r Ymddiriedolaeth yn dechrau gydag archwiliadau clinigol mewn meysydd risg uchel fel atal a rheoli heintiau.

25 Ar hyn o bryd mae gweithgarwch archwilio clinigol yn cael ei storio a'i rannu trwy dudalennau gwe mewnol a systemau rheoli dogfennau. Er bod y systemau yn weithredol ar hyn o bryd, mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi'r angen am system fwy canolog a chadarn i gefnogi'r gwaith o reoli archwiliadau clinigol. Caffaelodd yr Ymddiriedolaeth Offeryn Rheoli Archwilio (AMaT) yn 2024-25, ac mae'n cyflwyno'r offeryn ar hyn o bryd.

26 Tra bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflwyno Offeryn Rheoli Archwilio, mae wedi gwneud gwelliannau dros dro i olrhain camau archwilio clinigol trwy Microsoft (MS) Planner. Mae hyn yn darparu ffordd sylfaenol ond effeithiol o wirio cynnydd camau gweithredu ar lefel ranbarthol a darparu diweddariadau chwe mis i'r Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, trwy'r Grŵp Goruchwylio Ansawdd. Er nad yw MS Planner mor gynhwysfawr â'r Offeryn Rheoli Archwilio, mae'n dangos ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i sicrhau gwelededd parhaus ac olrhain archwiliadau nes bod y system newydd yn gwbl weithredol.

27 Bydd yr Offeryn Rheoli Archwilio yn canoli argymhellion, camau gweithredu a chynnydd archwilio, gan ddarparu hysbysiadau awtomataidd i swyddogion cyfrifol pan fydd camau gweithredu yn hwyr neu angen sylw. Bydd hyn nid yn unig yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn bodloni gofynion archwilio ond hefyd yn gyrru mwy o atebolrwydd a goruchwyliaeth. Bydd adrodd amser real trwy’r Offeryn Rheoli Archwilio yn darparu dangosfyrddau i ddangos cynnydd archwiliadau ac olrhain eu cwblhau, gan gynnig lefel uwch o dryloywder i dimau arweinyddiaeth. Yn ogystal, bydd integreiddio canlyniadau archwilio â ffynonellau sicrwydd eraill (er enghraifft, adroddiadau digwyddiadau) trwy’r Offeryn Rheoli Archwilio yn meithrin dull mwy integredig o wella ansawdd a chynllunio gweithredol.

28 Ar hyn o bryd mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu’r Offeryn Rheoli Archwilio sydd i fod yn gwbl weithredol erbyn 31 Mawrth 2026. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu darparu gweithdai hyfforddi’r Offeryn Rheoli Archwilio i staff ar draws timau ac adrannau clinigol i sicrhau eu bod yn gallu defnyddio'r system yn effeithiol i gael mynediad at a rheoli gwybodaeth archwilio.

29 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ac yn coladu themâu sy'n deillio o'i gweithgarwch archwilio clinigol. Mae gan y Grŵp Goruchwylio Ansawdd gynlluniau i ddatblygu proses ar gyfer adolygu themâu dysgu o archwiliadau a chamau dilynol cyn eu dwysáu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ar gyfer goruchwyliaeth strategol trwy Adroddiadau Llywodraethu Ansawdd a Pherfformiad chwarterol yn 2026. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i welliannau pellach i gryfhau'r broses o olrhain dysgu wedi'i weithredu, gyda chefnogaeth ymarferoldeb yr Offeryn Rheoli Archwilio. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu sicrhau bod cynlluniau archwilio yn y dyfodol yn rhoi sicrwydd ei bod yn ymchwilio ac yn mynd i'r afael â themâu archwilio yn effeithiol.

## Arfarniadau staff a hyfforddiant

30 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwella cyfraddau arfarnu staff, ac mae cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol bellach ymhell uwchlaw'r lefelau targed.

31 Ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis, Gorffennaf 2024 - Mehefin 2025, mae cydymffurfiaeth yr Ymddiriedolaeth â hyfforddiant statudol a gorfodol wedi bod dros 90% o'i gymharu â chyfradd darged o 85%. Mae cydymffurfiad wedi bod yn uwch na'r targed ar draws holl gyfarwyddiaethau'r Ymddiriedolaeth.

32 Ar gyfer y cyfnod o ddeuddeg mis, mae cyfraddau arfarnu staff ar draws yr Ymddiriedolaeth wedi amrywio rhwng 81.3% ac 85.6%, yn erbyn targed o 85%. Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y targed gwerthuso staff mewn deg o'r deuddeg mis, er bod perfformiad yn llawer gwell o'i gymharu â 61% ym mis Hydref 2021. Mae cyfraddau arfarnu staff yn amrywio yn ôl cyfarwyddiaeth, gyda chwech o wyth cyfarwyddiaeth yr Ymddiriedolaeth yn cyrraedd y targed. Mae cyfraddau arfarnu yn y Cyfarwyddiaethau Iechyd a Lles (80%), a Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio (81%) yn methu'r targed. Mae hyn yn cymharu â 54% yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio ym mis Hydref 2021[4].

33 Mae timau arweinyddiaeth bellach yn gallu olrhain lefelau cydymffurfio gydag arfarniadau a hyfforddiant statudol a gorfodol trwy ddangosfyrddau manwl fesul mis. Mae hyn yn cynnig mewnwelediadau amser real i dimau arweinyddiaeth ac wedi helpu i dynnu sylw at feysydd sydd angen sylw, gan alluogi ymyriadau wedi'u targedu. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi darparu gwell cefnogaeth i staff a rheolwyr llinell trwy gynnig arweiniad cliriach, sesiynau galw heibio rheolaidd, ac adnoddau pwrpasol, i gyd wedi'u hanelu at wella ansawdd a chysondeb gwerthusiadau.

34 Mae cynlluniau gwella lleol ar waith i wella cyfraddau gwerthuso staff mewn cyfarwyddiaethau nad ydynt yn cyrraedd y targed. Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r cynlluniau hyn trwy adolygiadau gweithlu chwarterol, gyda chefnogaeth monitro cyfraddau cydymffurfio arferol. Yn ogystal, mae datblygu cynlluniau hyfforddi wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol rolau, ochr yn ochr â chyfathrebu cliriach ar ddyddiadau cau cwblhau hyfforddiant, wedi helpu i gynyddu cydymffurfiaeth hyfforddiant statudol a gorfodol.

[4] Nid oes gennym ddata ar gyfer cyfraddau gwerthuso a gyflawnwyd gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant ym mis Hydref 2021.

35 Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu adolygu'r system arfarnu staff rhwng Hydref a Rhagfyr 2025. Mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r adolygiad fireinio prosesau ymhellach a gwella cyfraddau cydymffurfio'r Ymddiriedolaeth. Mae'r diwylliant cyffredinol sy'n ymwneud ag arfarniadau a hyfforddiant wedi newid yn gadarnhaol, gyda staff yn mynegi mwy o hyder yn y broses, gyda chefnogaeth ymdeimlad cryfach o bwrpas ac ymgysylltiad.

## Polisïau a gweithdrefnau

36 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran diweddaru a rhannu polisïau a gweithdrefnau newydd a diwygiedig. Er, gallai wneud mwy i asesu ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth yn fwy rhagweithiol.

37 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu prosesau cadarn ar gyfer diweddaru a rhannu polisïau ar draws cyfarwyddiaethau. Cymeradwyodd y Bwrdd Bolisi ar gyfer Polisïau wedi'i ddiweddaru ym mis Gorffennaf 2022. Mae Uned Fusnes y Bwrdd yn cydlynu'r broses, gyda phob cyfarwyddiaeth yn cael ei gefnogi gan Arweinwyr Busnes a Chynllunio. Mae polisïau newydd yn cael eu hymgynghori yn ffurfiol, ac yn cael eu cymeradwyo ar lefel arweinyddiaeth a phwyllgor. Mae gan fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth dudalen polisi cryfach i dynnu sylw at bolisïau sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

38 Mae Adroddiad Perfformiad Integredig yr Ymddiriedolaeth yn rhoi diweddariad ar statws polisïau corfforaethol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd, gydag adroddiadau bob dwy flynedd yn cael eu darparu i bob pwyllgor. Ym mis Mehefin 2025, adroddodd yr Ymddiriedolaeth i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella fod ganddi ddau bolisi ansawdd a diogelwch sydd wedi dyddio, allan o gyfanswm o ddeg ar hugain o bolisïau. Disgwylir cymeradwyo un polisi ym mis Awst. Roedd y polisi sy'n weddill yn aros am adolygiad ar sail Cymru gyfan.

39 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud ei staff yn ymwybodol o bolisïau newydd neu ddiwygiedig trwy fwletin e-bost misol. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfathrebu â staff trwy fecanweithiau mewnol eraill, gan gynnwys y fewnrwyd staff, cyfarfodydd arweinyddiaeth, a diweddariadau ar lefel cyfarwyddiaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn weithredol yn gwirio ymwybyddiaeth staff o bolisïau newydd neu wedi'u diweddaru trwy strwythurau corfforaethol, megis partneriaid AD strategol ac Arweinwyr Busnes a Chynllunio, sy'n cefnogi staff yn ystod prosesau newid. Fodd bynnag, mae profion ffurfiol yr Ymddiriedolaeth o ymwybyddiaeth staff yn gyfyngedig.

40 Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu cydymffurfiaeth â pholisïau newydd neu wedi'u diweddaru mewn modd adweithiol trwy edrych ar doriadau polisïau, er enghraifft, adrodd am ddigwyddiadau a chwynion. Mae'r Tîm Nyrsio Gweithredol yn arwain ar fonitro cydymffurfiad ac yn adrodd canfyddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dangosfyrddau perfformiad ac adroddiadau eithriad i nodi meysydd sy'n peri pryder, gan ysgogi camau adfer.

41 Mae polisïau penodol, fel Codi Llais heb Ofn a Gweithio i Wella, wedi cael sylw arbennig i olrhain eu gweithredu. Er gwaethaf hyn, mae lle i'r Ymddiriedolaeth gyflwyno dull systematig, Ymddiriedolaeth gyfan ar gyfer profi cydymffurfiad polisïau yn rhagweithiol, gan gynnwys ymwybyddiaeth. Byddai hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer polisïau a ddefnyddir yn llai aml.

## Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a staff

42 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cryf wrth wella ei dull o gasglu a gweithredu ar adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, staff, rhanddeiliaid a sefydliadau partner. Ond dylai'r Ymddiriedolaeth wella gwelededd newidiadau gwasanaeth sy'n deillio o adborth defnyddwyr gwasanaeth.

43 Mae saith rhwydwaith cydraddoldeb staff, pob un â noddwr gweithredol, yn darparu ffordd strwythuredig i leisiau staff fwydo'n uniongyrchol i drafodaethau ar lefel y Bwrdd. Mae arolygon staff rheolaidd, adolygiadau gwerthuso, a'r diwylliant Codi Llais heb Ofn sy'n dod i'r amlwg i gyd yn cefnogi amgylchedd seicolegol ddiogel a thryloyw i annog adborth staff.

44 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r system CIVICA ar draws pob rhaglen sgrinio, gan gefnogi dull cyson a gweladwy o ddal adborth defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys arolygon digidol pwrpasol a gynhelir ar dudalennau gwe rhaglenni, dolenni ar ddeunyddiau printiedig sy'n hyrwyddo adborth, a defnydd cynyddol o iPads a chiosgau adborth ar draws clinigau sgrinio. Mae arolygon yn dal nodweddion gwarchodedig, gan alluogi dadansoddiad sy'n canolbwyntio ar degwch. Mae'r buddsoddiad mewn platfformau digidol, ynghyd â ffocws clir ar hygyrchedd defnyddwyr, wedi gwella cyrhaeddiad a nifer yr ymatebion, ac yn cefnogi derbyn adborth yn gyflymach.

45 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgorffori triongli arferol o adborth defnyddwyr gwasanaeth gyda gwybodaeth arall. Mae'r Tîm Ansawdd bellach yn adolygu adborth defnyddwyr gwasanaeth CIVICA yn rheolaidd ochr yn ochr â data cwynion, tueddiadau digwyddiadau, data risg ac adborth gweithlu. Mae hyn yn galluogi themâu i gael eu nodi, er enghraifft, lle mae pryderon defnyddwyr gwasanaeth yn cyd-fynd â risgiau gweithredol neu ddiogelwch. Mae hyn yn darparu darlun mwy cynhwysfawr o ansawdd y gwasanaeth ac yn hyrwyddo golwg system gyfan. Mae cyfarfodydd Tîm Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Integredig yn ystyried y mewnwelediadau a'r cynlluniau uwchgyfeirio a gwella cysylltiedig. Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn darparu tystiolaeth o driongli adborth, gyda mewnwelediadau thematig gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu dadansoddi ochr yn ochr ag adborth staff a data perfformiad a risg.

46 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi treialu gwelliannau hyblyg sy'n deillio o adborth mwy amserol mewn meysydd fel sgrinio, defnydd a mynediad digidol at wybodaeth gyhoeddus yr Ymddiriedolaeth. Mae'r mentrau hyn yn dangos gallu cynyddol yr Ymddiriedolaeth i droi adborth yn gamau gweithredu gydag effaith fesuradwy yn gyflym, megis mwy o apwyntiadau sgrinio gyda'r nos a lleoliadau newydd.

47 Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd i gau'r ddolen adborth. Mae'n treialu derbyn adborth testun / SMS i gynyddu tryloywder a gwella hyder y cyhoedd yn yr ymateb i adborth. Mae neges ddilynol yn diolch i'r ymatebwyr ac yn amlinellu'r camau nesaf. Mae dangos sut mae adborth defnyddwyr gwasanaeth wedi llunio gwasanaethau sgrinio hefyd wedi ymddangos mewn Adroddiadau Ansawdd ac, i raddau cyfyngedig, mewn archwiliad dwfn i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

48 Dylai'r Ymddiriedolaeth, fodd bynnag, adrodd yn fwy penodol ar y newidiadau y mae wedi'u gwneud mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth i wella tryloywder. Dylai hyn gynnwys adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella ac amlygu newidiadau gwasanaeth sy'n deillio o adborth defnyddwyr gwasanaeth ar ei wefan. Dylid gweithredu'r fframwaith 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' i ddarparu'r tryloywder angenrheidiol.

49 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu mecanweithiau aeddfedu ac eang i ddal a gweithredu ar adborth defnyddwyr gwasanaeth, y gymuned a rhanddeiliaid. Yn ystod 2024 a 2025, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal adolygiad ymgysylltu sylfaenol sefydliadol gan ddefnyddio'r offeryn EDGE i asesu'r canlynol ar draws y sefydliad:

- Adnoddau a gweithgarwch ymgysylltu cyfredol.
- Ansawdd yr ymgysylltu.
- Deall y sbectrwm llawn o weithgarwch ymgysylltu.

50 Nod y gwaith yw sefydlu fframwaith canolog cynhwysfawr i gasglu, triongli a gweithredu ar adborth gan ddefnyddwyr ei wasanaeth, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau eraill (gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol, a sefydliadau partner ehangach). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gwella ei gwybodaeth a'i gallu i ymgysylltu â'i defnyddwyr gwasanaeth trwy ddatblygu system ganolog Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid yn barhaus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu creu swyddogaeth ymgysylltu ganolog sy'n gysylltiedig â swyddogaethau ymgysylltu presennol o fewn adrannau. Y nod yw datblygu ymagwedd a dull cyffredin ar gyfer ymgysylltu, gyda chefnogaeth fframwaith arweiniol a phecyn cymorth.

51 Bydd Grŵp Dysgu Profiad Pobl newydd yr Ymddiriedolaeth yn datblygu cynllun yr Ymddiriedolaeth i weithredu Fframwaith Profiad Pobl Cenedlaethol GIG Cymru. Mae'r grŵp hefyd yn darparu llwyfan ar gyfer dysgu traws-sefydliadol o ymgysylltu ac yn darparu adborth cysylltiedig am welliant cysylltiedig i Grŵp Goruchwylio Ansawdd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd.

## Is-grwpiau Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

52 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau clir a rhagweithiol i gryfhau goruchwyliaeth ei is-grwpiau Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

53 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu a diweddaru'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'i is-grwpiau, gan gynnwys y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau a'r Grŵp Diogelu. Mae'r diwygiadau hyn yn diffinio cyfrifoldebau adrodd, llwybrau uwchgyfeirio, ac amlder cyfarfodydd. Mae hyn yn sicrhau mwy o eglurder ar gylch gwaith pob is-grŵp a'u rôl wrth gyfrannu at sicrhau ansawdd system gyfan.

54 Roedd ffurfio Grŵp Goruchwylio Ansawdd yn 2023–24 yn ddatblygiad sylweddol o ran goruchwylio ansawdd. Roedd ymarfer mapio llywodraethu, a oedd yn asesu rhyng-ddibyniaeth rhwng grwpiau ansawdd a llif deallusrwydd, yn llywio sefydlu'r grŵp. Mae Grŵp Goruchwylio Ansawdd yn gweithredu fel rhyngwyneb beirniadol, gan drosi dysgu gweithredol i drafodaeth strategol ac adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Mae'r grŵp hwn wedi gwella gwelededd risgiau trawsbynciol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a dysgu o ddigwyddiadau a chwynion.

55 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn derbyn yr Adroddiad Llywodraethu Ansawdd, sy'n cynnwys eitemau ar gyfer cynnydd sy'n deillio o allbynnau is-grŵp. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau thematig, archwiliad dwfn, a dangosfyrddau chwarterol (er enghraifft, ar gyfer atal a rheoli heintiau, diogelu, Dyletswydd Gonestrwydd, ac archwilio clinigol). Mae strwythur yr Adroddiad Llywodraethu Ansawdd yn seiliedig ar feysydd ansawdd cydnabyddedig. Mae'n cynnwys materion allweddol, diweddariadau cynnydd, a chamau gweithredu angenrheidiol, gan gefnogi amgylchedd sicrwydd mwy aeddfed.

56 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi addasu ei agenda a'i arddull cyflwyno ei hun, gan sicrhau ei fod yn rhoi digon o amser ar gyfer dysgu a myfyrio beirniadol. Er enghraifft, mae cyfarfodydd diweddar wedi cynnwys archwiliad dwfn ar brofiad defnyddwyr gwasanaeth a diwylliant y gweithlu, yn seiliedig ar ganfyddiadau a godwyd gan y Grŵp Goruchwylio Ansawdd ac is-grwpiau. Hefyd, mae gan y pwyllgor raglen waith sefydlog i sicrhau aliniad â blaenoriaethau strategol a disgwyliadau llywodraethu.

## Ymateb i'r Dyletswyddau Ansawdd a Gonestrwydd

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd amlwg wrth weithredu ei dyletswyddau statudol ynghylch ansawdd a gonestrwydd

57 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu trefniadau corfforaethol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r ddwy ddyletswydd. Mae wedi cwblhau'r hunanasesiad cenedlaethol ar gyfer y ddwy ddyletswydd ac wedi adrodd y canfyddiadau i'r Bwrdd a'r pwyllgorau perthnasol.

58 Mae adroddiadau llywodraethu yn rheolaidd yn cynnwys diweddariadau ar weithredu, gyda'r Ddyletswydd Ansawdd bellach yn cael ei adlewyrchu yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a dogfennau strategol eraill hefyd bellach yn adlewyrchu'n benodol feysydd ansawdd y Ddyletswydd Ansawdd.

59 Mae aelodau'r bwrdd wedi derbyn sesiynau datblygu, gyda chefnogaeth yr Uned Gyflawni genedlaethol, i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau o dan y ddwy ddyletswydd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi darparu hyfforddiant i staff drwy'r Cofnod Staff Electronig, gyda'r defnydd yn cael ei fonitro, er nad yw'r hyfforddiant Dyletswydd Gonestrwydd yn orfodol ar hyn o bryd.

60 Mae uwch arweinwyr, fel y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ac arweinwyr adrannol, wedi derbyn hyfforddiant ac yn gweithredu fel hyrwyddwyr yn eu meysydd priodol. Fodd bynnag, ar adeg ein gwaith maes, roedd ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau a'r defnydd o hyfforddiant ar y lefel weithredol yn amrywiol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â hyn trwy godi ymwybyddiaeth barhaus, diweddariadau adrannol, ac ymgysylltu ag arweinyddiaeth.

61 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfrifoldebau arweinyddiaeth wedi'u diffinio'n glir ar gyfer ansawdd. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn arwain ar y ddwy ddyletswydd statudol, gydag uwch arweinwyr rhanbarthol yn cymryd rhan mewn cyflawni gweithredol. Mae nawdd gweithredol cryf o fecanweithiau diwylliant sefydliadol fel Codi Llais heb Ofn, ac mae staff yn defnyddio'r fframwaith ansawdd i lunio cyflwyniadau, trafodaethau perfformiad, ac adroddiadau sicrwydd.

62 Nid oes unrhyw dystiolaeth o fylchau capasiti neu allu ar lefel adrannol. Mae ymgysylltu â'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a sesiynau datblygu Bwrdd wedi cryfhau dealltwriaeth ar y cyd o sut y dylai sicrwydd ar y dyletswyddau hyn edrych.

63 Mae trefniadau monitro ar waith ac yn aeddfedu. Mae'r Adroddiad Rheoli a Pherfformiad Ansawdd chwarterol yn darparu diweddariad cynnydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a'r Tîm Gweithredol. Mae cylchoedd adrodd blynyddol hefyd ar waith i gefnogi goruchwyliaeth barhaus.

64 Er bod achosion Dyletswydd Gonestrwydd yn anaml oherwydd natur y gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth, mae pob achos yn cael ei reoli'n ofalus, ac mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu prosesau adrodd i sicrhau cyfranoldeb ac effeithiolrwydd. Yn 2024-25, adroddodd yr Ymddiriedolaeth ddau ddigwyddiad 'niwed cymedrol ac uwch' yr oedd angen cymhwyso'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd, allan o gyfanswm o 66 o ddigwyddiadau. Hefyd, mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio i driongli data risg, ansawdd a digwyddiadau yn fwy effeithiol, gan ddefnyddio offer fel dangosfyrddau Power BI i ddarparu mewnwelediadau amser real a gwelededd gweithredol.

65 Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i hyrwyddo diwylliant o fod yn agored, dysgu, a grymuso staff. Mae Codi Llais heb Ofn wedi arwain at gynnydd mewn adrodd, gyda thimau arwain yn hyrwyddo diogelwch seicolegol ac ymarfer myfyriol yn weithredol. Mae rhwydweithiau staff, partneriaethau undebau llafur, a hyfforddiant ar sgyrsiau anodd wedi cefnogi newid cadarnhaol mewn diwylliant.

66 Mae Cynllun Gweithredu Diwylliannol ar waith, ac mae gwasanaethau sgrinio wedi alinio eu gweithgarwch gwella ansawdd â'r dyletswyddau, gan ddefnyddio'r Ddyletswydd Ansawdd fel fframwaith canolog ar gyfer perfformiad a dysgu.

# Argymhellion

67 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad newydd yn seiliedig ar ein gwaith dilynol. Mae'r argymhellion hyn yn disodli pedwar argymhelliad o'n gwaith yn 2022 yr ydym wedi'u nodi fel yn rhannol gyflawn (Argymhellion 5.2, 5.3, 6.3 a 6.4). Mae ymateb yr Ymddiriedolaeth i’n hargymhellion wedi’i ddarparu yn **Atodiad 3**.

68 Mae statws argymhellion 2022 wedi'i nodi yn **Atodiad 2**.

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno dull systematig, Ymddiriedolaeth gyfan ar gyfer profi ymwybyddiaeth o bolisïau llywodraethu ansawdd a chydymffurfiaeth â nhw yn rhagweithiol. (**gweler paragraff 41**). |

| | |
|---|---|
| **A2** | Dylai'r Ymddiriedolaeth adrodd yn fwy penodol a thryloyw ar y newidiadau y mae wedi'u gwneud mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys adroddiadau i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, a defnydd mwy penodol o "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni" i gefnogi adrodd ar y wefan o newidiadau gwasanaeth sy'n deillio o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth**.** (**gweler paragraff 48**). |

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Rydym wedi asesu a yw:

- yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu ar argymhellion archwilio blaenorol sy'n deillio o'n hadolygiad 2022 o'i threfniadau llywodraethu ansawdd ac yn gwireddu canlyniadau a manteision arfaethedig yr argymhellion hynny; ac
- mae dull corfforaethol cadarn o oruchwylio a chraffu ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau yn unol â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Aeth ein harchwiliad i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o ymdrin ag asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau rheoli risg?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei threfniadau archwilio clinigol?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwella cydymffurfiad ag arfarnu staff a thargedau hyfforddi statudol a gorfodol?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei hagwedd at adborth gan ddefnyddwyr a staff?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei dull o geisio adborth gan ei rhanddeiliaid ehangach a'i sefydliadau partner?
- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cryfhau ei goruchwyliaeth o is-grwpiau'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella?

- A yw'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau i weithredu trefniadau i gyflawni'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd?

### Meini prawf

Wrth gasglu tystiolaeth yn erbyn y cwestiynau uchod, roeddem yn chwilio i weld os oedd yr Ymddiriedolaeth yn dangos ei bod:

- Wedi gwneud y cynnydd disgwyliedig wrth weithredu ein hargymhellion archwilio 2022 (a nodir yn **Atodiad 2)** i fynd i'r afael â'r materion a'r pryderon a nodwyd yn yr archwiliad gwreiddiol; a
- A oedd yn gweithredu gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (y Ddeddf) o ran dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.

## Dulliau

Gwnaethom ymgymryd â'n gwaith archwilio rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025.

Fe wnaethom adolygu'r dogfennau allweddol canlynol:

- Fframweithiau ansawdd,
- Adroddiadau archwilio mewnol perthnasol,
- Profiad cleifion a strategaeth cyfranogiad,
- Adborth ac ymgysylltu â staff,
- Polisïau a gweithdrefnau,
- Cofrestr, adroddiadau a chynllun sicrhau risg,
- Cynllun archwilio clinigol ac adroddiadau perthnasol,
- Adroddiadau blynyddol perthnasol, gan gynnwys adroddiadau Gweithio i Wella, a Dyletswydd Ansawdd, ac
- Adroddiadau pwyllgorau, gan gynnwys adroddiadau Sicrhau Ansawdd a Pherfformiad.

Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:

- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig,
- Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Pobl a Sefydliadol,
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol,
- Cyfarwyddwr – Yr Is-adran Sgrinio,
- Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella,
- Pennaeth Rheoli Risg, a
- Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd.

Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Ymddiriedolaeth gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, gan nodi ei barn am gynnydd yn erbyn argymhellion 2022. Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth hunanasesiad wedi'i gwblhau ar 27 Mai 2025.

# 2 Argymhellion blaenorol

Gwnaethom yr argymhellion canlynol yn 2022 yn dilyn ein hadolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth. Rydym wedi tynnu sylw at statws yr argymhellion hyn yn seiliedig ar ein hadolygiad dilynol.

**A1** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ymdrin ag asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:

**1.1.** Sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau lle bo angen (**wedi'i gwblhau**).

**1.2.** Cytuno ar safonau ansawdd a phroses i asesu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb, gan sicrhau eu bod yn asesiadau ystyrlon gyda chamau priodol i liniaru effeithiau andwyol (**wedi'i gwblhau**).

**1.3.** Datblygu storfa ganolog i storio a rhannu Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar draws y sefydliad (**wedi'i gwblhau**).

**1.4.** Datblygu proses i fonitro gweithredu camau lliniaru (**wedi'i gwblhau)**.

**A2** **Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau rheoli risg drwy**:

**2.1.** Blaenoriaethu gweithredu ei Gynllun Datblygu Risg (**wedi'i gwblhau**).

**2.2.** Parhau i ddatblygu systemau i sicrhau ansawdd rheolaethau yn y gofrestr risg strategol ac ystyried y fforwm gorau i rannu'r wybodaeth (**wedi'i gwblhau**).

**2.3.** Sicrhau bod meddalwedd cyson yn cael ei ddefnyddio i reoli risg ar draws y busnes (**wedi'i gwblhau**).

**2.4.** Adolygu adnoddau ar gyfer rheoli risg gan gynnwys ehangder portffolio gwaith y Prif Swyddog Risg, ac a yw staff gweithredol wedi diogelu amser ar gyfer rheoli risg (**wedi'i gwblhau**).

**A3** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei threfniadau archwilio clinigol drwy:

**3.1.** Creu storfa ganolog i storio a rhannu'r holl archwiliadau clinigol, naill ai yn yr hwb ansawdd neu mewn mannau eraill (**wedi'i gwblhau**).

**3.2.** Datblygu system i olrhain ac adrodd ar gynnydd gan weithredu argymhellion archwilio clinigol i'r Tîm Gweithredol Busnes a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (**wedi'i gwblhau**).

**3.3.** Datblygu proses i gysylltu'r cynllun archwilio clinigol yn gliriach â chofrestrau risg gweithredol, corfforaethol a strategol i ddangos bod archwiliadau'n cael eu mapio i risgiau ansawdd a diogelwch allweddol (**wedi'i gwblhau**).

**3.4.** Coladu themâu sy'n deillio o'r rhaglen archwilio clinigol a'u rhannu gyda'r Tîm Gweithredol Busnes a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Dylai cynlluniau archwilio clinigol roi sicrwydd bod themâu yn cael eu hymchwilio yn y dyfodol (**wedi'i gwblhau**).

**A4** Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau cydymffurfiad ag arfarniadau staff a bod hyfforddiant statudol a gorfodol yn cyrraedd y targed cenedlaethol o fewn y 12 mis nesaf (**wedi'i gwblhau**).

**A5** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei rheolaeth o bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig trwy:

**5.1.** Datblygu proses i ddiweddaru a rhannu polisïau a gweithdrefnau ar lefel cyfarwyddiaeth gyda staff (**wedi'i gwblhau**).

**5.2.** Monitro ymwybyddiaeth staff o bolisïau a gweithdrefnau newydd neu rhai sydd wedi eu diweddaru (**wedi'i gwblhau yn rhannol**).

**5.3.** Profi cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau newydd neu rai sydd wedi'u diweddaru, gan gynnwys y Weithdrefn Gweithio i Wella a Pholisi Pryderon Cymru Gyfan (**wedi'i gwblhau yn rhannol**).

**5.4.** Rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella bod staff yn defnyddio polisïau a gweithdrefnau newydd a'r rhai sydd wedi eu diweddaru (**wedi'i gwblhau**).

**A6** Dylai'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o ddefnyddio adborth defnyddwyr a staff drwy:

**6.1.** Datblygu a gweithredu'r system CIVICA a dull cyson o gasglu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig defnyddwyr gwasanaeth ac ymatebwyr i arolygon ymchwil (**wedi'i gwblhau**).

**6.2.** Datblygu dull o gyfuno adborth gan staff, defnyddwyr gwasanaeth, cwynion, digwyddiadau, a chanmoliaeth i greu darlun mwy cadarn o ansawdd a diogelwch gwasanaethau (**wedi'i gwblhau**).

**6.3.** Datblygu mecanweithiau i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth am yr effaith y mae eu hadborth wedi'i chael ar wella gwasanaeth (**wedi'i gwblhau yn rhannol**).

**6.4.** Cynnwys adborth defnyddwyr gwasanaeth mewn archwiliad dwfn ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (**wedi'i gwblhau yn rhannol**).

**6.5.** Datblygu dull o rannu dysgu o ymgysylltu â staff a defnyddwyr drwy weithredu'r Strategaeth Ansawdd fel Busnes a datblygu dulliau ystwyth sydd wedi'u cychwyn (**wedi’i gwblhau**).

**A7** Dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i gynnwys ei is-grwpiau a'i mecanweithiau adrodd. Wrth wneud hynny, dylai sicrhau bod gan y Pwyllgor oruchwyliaeth o ehangder y deunydd a gwmpesir gan yr is-grwpiau a'r themâu neu faterion allweddol sy'n deillio o drafodaethau (**wedi’i gwblhau**).

# 3 Ffurflen ymateb rheolwyr

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Ymddiriedolaeth gyflwyno dull systematig, Ymddiriedolaeth gyfan ar gyfer profi ymwybyddiaeth o bolisïau llywodraethu ansawdd a chydymffurfiaeth â nhw yn rhagweithiol. | Adolygu Polisi ICC ar gyfer Polisïau, Gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill i sicrhau'r gofyniad i berchnogion polisi archwilio / brofi cydymffurfiaeth ac ymwybyddiaeth ar gyfer pob Polisi yn rheolaidd. Diwygio taflen glawr cymeradwyo'r polisi i gynnwys gofyniad mwy penodol i brofi ymwybyddiaeth fel rhan o'r cynllun gweithredu. | Ionawr 2026 | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Datblygu amserlen ar gyfer archwilio pob Polisi Llywodraethu Ansawdd, a chanlyniadau i'w cynnwys yn Adran Archwilio yr adroddiad chwarterol Llywodraethu Ansawdd i QSIC. Crynhoi unrhyw weithgaredd archwilio sy'n ymwneud â Pholisïau Llywodraethu Ansawdd yn adroddiad Ch4 adroddiad diwedd y flwyddyn neu'r Adroddiadau Blynyddol ar gyfer pob ardal. | Ebrill 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | Dylai'r Ymddiriedolaeth adrodd yn fwy penodol a thryloyw ar y newidiadau y mae wedi'u gwneud mewn ymateb i adborth defnyddwyr gwasanaethau. Dylai hyn gynnwys adroddiadau i QSIC, a defnydd mwy eglur o 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' i gefnogi adrodd ar ei wefan am newidiadau gwasanaeth sy'n deillio o adborth defnyddwyr gwasanaethau. | Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer y Fframwaith Profiad Pobl yn cael ei drafod a'i ddatblygu ar 1 Hydref yn y Grŵp Profiad Pobl mewnol (Grŵp Defnyddwyr Gwasanaethau). Mae'r cynllun hwn yn cynnwys cyflwyno arddangosfa 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' o fewn safleoedd sy'n wynebu'r cyhoedd a reolir gan PHW gyda gwybodaeth chwarterol yn cael ei arddangos. | Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar gamau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer camau gweithredu a gynlluniwyd | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | Fel rhan o'r gweithgor Adrodd 'Parhaol', mae gwefan sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael ei datblygu i gynnwys adran 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' a fydd yn manylu ar newidiadau a wnaed o ganlyniad i adborth defnyddwyr gwasanaethau. | Mai 2026 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Nyrsio |

# 4 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Uned Fusnes y Bwrdd** | Y swyddogaeth sy'n cefnogi Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth. |
| **CIVICA** | System electronig ar gyfer casglu a mesur adborth cleifion a gweithwyr. |
| **Archwiliad clinigol** | Y broses sy'n ceisio gwella gofal a chanlyniadau cleifion trwy adolygu gofal yn systematig yn erbyn meini prawf penodol a gweithredu newid. |
| **Datix Cymru** | System Rheoli Pryderon swyddogol Unwaith dros Gymru, platfform digidol diogel sy'n seiliedig ar y cwmwl a ddefnyddir gan holl staff GIG Cymru i roi gwybod am ddigwyddiadau, risgiau a phryderon diogelwch o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd. |
| **Archwiliad dwfn** | Archwiliad neu ddadansoddiad manwl o bwnc a dderbynnir gan y Bwrdd neu un o'i bwyllgorau er gwybodaeth a/neu sicrwydd. |
| **Dyletswydd Gonestrwydd** | Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ofyniad cyfreithiol i sefydliadau GIG Cymru fod yn agored ac yn onest gyda defnyddwyr gwasanaeth pan fydd niwed yn digwydd yn ystod eu gofal. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu â'r claf, ymchwilio i'r |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | digwyddiad, a dysgu ohono i atal digwyddiadau yn y dyfodol. |
| **Dyletswydd Ansawdd** | Mae'r Ddyletswydd Ansawdd yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru i wella ansawdd gwasanaethau gofal iechyd a chanlyniadau i bobl Cymru yn barhaus. Mae'r Ddyletswydd yn mynnu canolbwyntio ar ansawdd ym mhob penderfyniad strategol a monitro parhaus o gynnydd mewn gwella ansawdd |
| **Adnodd EDGE** | Embryonic, Developing, Gripping, Embedded – mae'r adnodd EDGE, a ddatblygwyd gan y Ganolfan Gydlynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, yn fframwaith hunanasesu a ddefnyddir gan sefydliadau i werthuso a gwella eu cefnogaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd. |
| **Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb** | Y broses a ddefnyddir i archwilio effeithiau posibl polisi, prosiect neu wasanaeth ar wahanol grwpiau o bobl, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. |
| **Hwb Llywodraethu** | Un pwynt cyswllt i staff ar bob agwedd ar lywodraethu. |
| **Hwb Gwella ac Arloesi** | Swyddogaeth gorfforaethol i gefnogi staff i yrru ansawdd, gwella ac arloesi, i gyflawni nodau strategol. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Mae Cynllun Tymor Canolig Integredig yn gynllun tair blynedd sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn bodloni ei ddyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. |
| **Power BI** | Meddalwedd cyfrifiadurol a ddefnyddir i ddadansoddi a gweld data i helpu i gefnogi dealltwriaeth o ddata. |
| **Gweithio i Wella** | Y broses ffurfiol ar gyfer codi pryderon a chwynion am y GIG yng Nghymru a'i wasanaethau. |
| **Llywodraethu ansawdd** | Y cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain a sicrhau perfformiad o ansawdd uchel, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd a phrofiad cleifion. |
| **Cynllun Datblygu Rheoli Risg** | Cynllun a ddatblygwyd yn dilyn dadansoddiad bwlch a gynhaliwyd yn 2022, sy'n nodi'r camau sydd eu hangen i wella trefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth dros gyfnod o dair blynedd. |
| **SharePoint** | Cyfrwng cydweithredu a rheoli dogfennau ar y we. |
| **Codi Llais heb Ofn** | Fframwaith diwylliannol sy'n anelu at greu amgylchedd lle mae unigolion yn teimlo'n ddiogel |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | ac yn hyderus i godi pryderon am faterion fel diogelwch cleifion, ansawdd gofal, a bwlio yn y gweithle heb ofn erledigaeth neu driniaeth niweidiol. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol o Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar y defnydd o adnoddau gan y sefydliadau hyn ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân gyda'r rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.